# Teithiau Penllyn | Go Bala **T9**

## Taith Moel Emoel | Moel Emoel Trail

Cymdeithas Twristiaeth y Bala a Phenllyn | Bala & Penllyn Tourism Association



Cerdded | Scenic Walk

### Crynodeb

Cylchdaith i ben Moel Emoel (549 m 1,800 tr) drwy dir amaethyddol, ffriddoedd a ffyrdd tawel, gyda golygfeydd ardderchog o'r Bala, y llyn a'r mynyddoedd oddi amgylch.

Mae Cymdeithas Dwristiaid y Bala a Phenllyn wedi gwirio'r wybodaeth roddir yn y daflen hon ond gall rhai newidiadau ddigwydd. Dylech fod yn gyfrifol am eich diogelwch eich hun, cymerwch sylw o rybuddion, dilynwch y Cod Cefn Gwlad a gweler gwefan www.GoBala.org (Gwybodaeth/Diogelwch)

| | |
|---|---|
| Gwybodaeth i Dwristiaid: | www.VisitBala.org neu www.ymweldageryri.info |
| Gwybodaeth am Deithiau: | www.GoBala.org |

## Cynlluniwch eich taith

| | |
|---|---|
| Pellter | 11½ km (7¼ milltir) |
| Gwaith Dringo | 450 m (1,475 troedfedd) |
| Amser heb aros | 4 - 4½ awr |
| Map | OS OL18 |
| Tirwedd | Llwybrau, ffyrdd tawel, tir amaethyddol, ffriddoedd |
| Man cychwyn/ gorffen | Canolfan Cywain , ger y Bala (SH928365) |
| Parcio Ceir | Mannau cychwyn |
| Toiledau | Maes Parcio'r Green, Bala (SH928361) |
| Lluniaeth | Bala |
| Cludiant Cyhoeddus | www.GoBala.org (Gwybodaeth/Cludiant Cyhoeddus) |
| Dalier Sylw | **Argymhellir na ddylid fynd a chŵn ar dir amaethyddol, gellir cyfarfod gwartheg a theirw yn pori. Llawer o gamfeydd. Llwybr ddim yn glir mewn mannau. Ar ôl glaw bydd y gwair yn wlyb felly angen esgidiau cerdded pwrpasol. Ar wahân i'r Bala dim lluniaeth na thoiledau.** |

www.GoBala.org

### Y Daith

1 DECHRAU Wrth adael Canolfan Cywain A trowch i'r dde ar y ffordd dawel (gogledd) am 800m, heibio adeiladau 'stablau Stad Rhiwlas B ar y dde. Ar y chwith mae afon Tryweryn C.

2 Ar ôl mynd heibio'r ddau fwthyn teras ar y chwith, trowch i'r dde drwy adwy ddwbl ar ffordd drol sy'n arwain at adeiladau'r Stad ( nid oes hawl tramwy yma ond rhoddwyd ganiatâd gan Stad Rhiwlas), ar ôl 50m cadwch i'r chwith, drwy'r adwy gan gadw'r coed ar y dde, cariwch ymlaen i'r un cyfeiriad drwy sawl adwy heibio i goeden Masarn, a thrwy adwy olaf i mewn i'r cae. Wedyn i fyny 'r rhiw gan gadw i'r chwith o fwthyn gwyngalchog (Pen–rhyd-galed) wedyn cadwch yn syth ymlaen at 2 gamfa yn y ffens/gwrych (ar ochr dde i goeden onnen).

3 Croeswch y ffordd a thros y gamfa gyferbyn. Ewch ar draws y cae (os oes cnwd yn tyfu ewch ar hyd yr ymyl os gwelwch yn dda) drwy'r gwrych a thros y gamfa. Mae golygfa o Foel Moel Emoel o'ch blaen. Cadwch i fynd yn syth ymlaen ar draws y cae a thrwy adwy fechan gudd yn y ffens, wedyn i mewn i'r goedlan.

4 Gwyrwch i'r chwith ychydig ac ewch drwy'r coed i lawr y rhiw, yn syth ymlaen pan ddewch at arwyddbost dros y nant, i fyny 'r rhiw, i'r un cyfeiriad wrth yr arwyddbost nesaf, at adwy "Wiced". Gadewch y goedlan ac ewch yn syth ymlaen drwy'r cae, drwy adwy "Wiced", i'r un cyfeiriad i lawr ac i fyny dyffryn bychan & thrwy adwy fechan.

5 Sylwch ar y chwith ar hen adeilad fferm yr Hendre D daliwch i fynd i'r un cyfeiriad drwy dwy adwy a thros ffos, ac ar draws y cae at adwy. Ewch drwy'r adwy honno gan gadw i'r chwith o'r adwy nesaf a dilynwch y gwrych/ffens at ddau adeilad (Penmaen-canol). Ymunwch a'r ffordd drol rhwng yr adeiladau a trowch i'r chwith.

6 Croeswch y nant a gwyrwch i'r chwith i fynd i mewn i'r goedlan dros gamfa. Wedyn cerddwch yn groes i gyfeiriad rhediad y dŵr gan gadw'r nant ar eich ochr chwith. Ar ôl 100m, gwyrwch i'r dde ar hyd nant fechan, gall hon fod yn sych, wedyn dringwch i fyny at gamfa, o'r golwg tu ôl i goeden dderw. Daliwch i fynd ar hyd y cae gyda'r gwrych ar eich ochr chwith i groesi gamfa yn y gornel.

7 Trowch i'r dde a dilynwch y ffens/gwrych ar eich ochr dde i lawr at a thros y nant, trowch i'r chwith gan gadw ymlaen ar hyd hen wrych (arwyddbost), croeswch i ochr arall y gwrych, i fyny 'r rhiw heibio arwyddbost a dilynwch yr hen wrych o dan y gwifrau trydan; pan ddowch at doriad yn yr hen wrych gwyrwch i'r chwith i fyny 'r rhiw at adwy haearn yn y ffens. Ewch drwy'r adwy a throi yn syth i'r chwith i mewn i'r goedlan drwy adwy/gamfa tu ôl i dwr o gerrig.

8 Daliwch i fynd drwy'r coed ar hyd toriad yn y coed ar lwybr "wedi ei godi", croeswch y nant a daliwch i fynd i'r un cyfeiriad. Croeswch dir corslyd i adael y coed dros gamfa, wedyn daliwch i fynd i'r un cyfeiriad drwy'r eithin, i fyny 'r rhiw, drwy adwy, ac wedyn ar draws ffordd drol drwy ail adwy (Agor i'r Cyhoedd).

9 Ewch ymlaen ar lwybr tractor a chymerwch yr adwy/gamfa i adael y llwybr tractor a mynd i'r ffridd agored. Mae Moel Emoel o'ch blaen a Llyn Maen Bras E ar y chwith.

10 Gallwch wyro i'r dde a dringo at y grib ddeheuol yn gyfochrog a Choed Foel Emoel sydd bellach wedi eu torri i lawr, gan ddilyn llwybr anodd i'w weld. Ar ôl cyrraedd y grib ddeheuol dilynwch hi i'r copa.

11 O'r copa (549 m 1800 tr) (SH937402) mae golygfeydd gwych i bob cyfeiriad E F.

12 O'r copa ewch ar hyd y llwybr anodd ei ganfod ar hyd y grib ddeheuol ac ychydig o flaen Coed Foel Emoel trowch i'r chwith drwy'r adwy/gamfa. Ewch i lawr y rhiw gan gadw'r goedwig ar eich ochr dde.

13 Trowch i'r dde wrth adwy/gamfa (arwydd diwedd Agor i'r Cyhoedd) i gadw'r goedwig ar eich ochr dde.

14 Dilynwch y wal bridd i lawr y rhiw. Bron cyn cyrraedd diwedd y cae cymerwch yr adwy ar y dde i'r goedwig a dilynwch y ffordd drol i lawr y rhiw drwy'r goedlan sydd yn gwyro i'r dde. (Nid oes hawl tramwy ar hyd y ffordd drol ond cafwyd caniatâd gan Stad Rhiwlas i'w defnyddio). Pan gyrhaeddwch ffordd drol arall yn croesi trowch i'r dde i fyny 'r rhiw, ar ôl 10m gwyrwch i'r chwith ar ffordd drol i lawr y rhiw.

15 Gadewch y coed drwy'r adwy a daliwch i fynd i'r un cyfeiriad. O'ch blaen mae golygfeydd o'r llyn a mynyddoedd yr Aran. Daliwch i ddilyn y ffordd drol i lawr y rhiw.

16 Ewch ymlaen o dan y gwifrau trydan, daliwch i ddilyn y ffordd drol drwy'r adwy gan gadw'r goedwig ar y chwith (Pwll-clai G), ewch drwy adwy arall i gyrraedd ffordd dawel i lawr y rhiw.

17 Daliwch i fynd heibio i amryw o arwyddion llwybrau cyhoeddus nes i chwi weld un wrth lwybr yn arwain at adeilad carreg mawr ar y chwith. Trowch i'r chwith, drwy'r adwy, yn syth o flaen yr adeilad oedd ar un amser yn gapel (Ty Capel, PANT GLAS 1903). Ewch dros y gamfa, sydd tu ôl i berth, i mewn i'r cae. Daliwch i fynd i lawr y rhiw hefo ffin y cae ar y chwith.

18 Croeswch y gamfa yng nghornel y cae, ar draws y ffos, wedyn i'r chwith. Nepell ar y dde croeswch gamfa i ymuno â llwybr wedi gordyfu, i lawr y rhiw drwy'r coed, croeswch y gamfa allan o'r coed. Yn lle hynny, gallwch fynd o gwmpas y goedlan i gyrraedd y gamfa uchod. Wedyn ewch i lawr y rhiw at ffordd drol, trowch i'r dde ar honno, pan gyrhaeddwch bostyn carreg sengl trowch i'r chwith i lawr at bont ag adwy.

19 Ewch dros y bont drwy'r ail adwy a gwyrwch i'r chwith dros y weirglodd, ar ôl 60m gwyrwch i'r dde drwy'r bwlch i fyny 'r rhiw at hen dŷ yn y coed (Y Gloig H).

20 Ewch i'r dde o'r Gloig, wedi mynd heibio'r adeiladau trowch i'r chwith i'r cae, croeswch y cae i fyny 'r rhiw heibio polion trydan i gyrraedd ffens ar y dde wedyn ewch ar hyd y ffens a thrwy adwy wrth ymyl coeden fawr. Trowch i'r chwith a dilynwch y ffens/hen wal derfyn i lawr y rhiw at goedlan a nant Ceunant Morgan.

21 Yn union cyn cyrraedd y goedlan trowch i'r dde ac ewch i lawr y rhiw gan gadw'r goedlan a'r nant ar y chwith, a daliwch i fynd i'r un cyfeiriad drwy sawl cae.

22 Wedyn ar hyd hen derfyn cae, i lawr y rhiw i gyrraedd ffordd, wedyn ar y chwith at y coed. Trowch i'r dde drwy'r adwy, i lawr y rhiw ar y ffordd drol hefo'r nant ar y chwith.

23 Croeswch y nant dros y bont ac ewch i'r dde drwy'r buarth i'r ffordd. Mae pentref Llanfor ar y chwith I.


24 Trowch i'r dde ar y ffordd am 120 m.

25 Trowch i'r chwith, drwy'r adwy, i ymuno â " Llwybr y Cariadon" J – lon goed. Ger diwedd yr 2il gae gwyrwch i'r dde, i lawr y rhiw at adwy.

26 Trowch i'r chwith ar hyd y ffordd i ddychwelyd i Ganolfan Cywain.

GORFFEN

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru Welsh Government




'Rydym yn ddiolchgar i Stad Rhiwlas am ganiatâd i ddefnyddio rhannau byr o ffyrdd trol lle nid oes hawl tramwy felly dilynwch y llwybr ddisgrifiwyd yma os gwelwch yn dda a dilynwch y Cod Cefn Gwlad.

**I gyrraedd Canolfan Cywain o Faes Parcio'r Green** (½ km, 10 munud.)
Gadewch Faes Parcio'r Green a trowch i'r dde ar yr A494 (cyfeiriad Corwen), croeswch Pont-y-Bala (dros y Tryweryn) gan ddefnyddio'r llwybr ar yr ochr chwith i'r A494, heibio'r hen fynediad fwaog i Blasdy Rhiwlas. Yn union ar ôl mynd heibio'r fynediad trowch i'r chwith i ffordd dawel at Ganolfan Cywain ar y llaw dde ar ôl 300 m.

Pan gyhoeddwyd y daflen hon roedd Canolfan Cywain ar gau, disgwylir iddi ail-agor yn y man i gynnwys toiledau a lluniaeth.

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2013 Arolwg Ordnans 100023387 / © Crown copyright and database rights 2013 Ordnance Survey 100023387

**Traddodiad Lleol:** dylech fynd a charreg hefo chi i'w rhoi ar y twr cerrig ar y copa a rhoi un droed yn pwll ger y copa!

A **Ysgubor Isaf:** Ffatri gwneud brwsh ac ysgubau allan o brysglwyni sydd yn tyfu yn y gwrychoedd lleol. Yn fwy diweddar addaswyd yr adeilad i wneud Canolfan Cywain, canolfan treftadaeth sydd bellach wedi cau.

Defnyddir y caeau gerllaw i gynnal sawl digwyddiad o bwys, gan gynnwys yr Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Sioe Sir Feirionnydd, a threialon a gwerthiannau Cŵn Defaid lleol a chenedlaethol.

B **Stad Rhiwlas:** y prif dirfeddianwyr yn yr ardal, cartref y teulu Price.

C Daw dŵr **Afon Tryweryn** o Lyn Celyn, ar yr afon hon cynhaliwyd pencampwriaeth byd-eang canŵio a rasio dwr gwyn. Ychydig o filltiroedd ar hyd yr A4212 i gyfeiriad Trawsfynydd mae canolfan cenedlaethol dŵr gwyn sef Canolfan Tryweryn. Yno gallwch rafftio dŵr gwyn neu gerdded **Taith Tryweryn** i fyny at yr argae.

Afon Tryweryn yw'r un o'r afonydd prin lle ceir cregyn gleision perlog dŵr croyw sydd yn dangos mor lân yw safon y dŵr. Hefyd yn yr afon mae'r lamprai i'w chael yn ogystal a chreaduriaid mwy cyffredin fel y dyfrgi, a physgod fel yr eog, y brithyll a'r penllwyd. Am ychwaneg o wybodaeth am anifeiliaid gwyllt lleol gweler tudalen **Bywyd Gwyllt** ar wefan GoBala.

D **Hendre:** yn golygu preswylfod yr haf, yn deillio o'r arferiad amaethyddol Cymreig o "Hendre a Hafod" (trawstrefa neu hafota a hendrefa). Yr Hendre oedd y prif breswylfa ger llawr y dyffryn – safle y gaeaf – yr Hafod oedd safle yr haf ger porfa'r ucheldir.

E **Llyn Maen Bras:** cronfa ddŵr sydd yn cyflenwi Stad Rhiwlas i gynhyrchu trydan hydro-electrig.

F O'r copa o danoch gwelir Llyn Maen Bras, tref y Bala, Llyn Tegid, ac yn bellach i ffwrdd crib yr Aran (yn codi o'r llyn), wedyn yn ôl symudiad cloc: Cadair Idris, Rhobell Fawr (de-orllewin), Dduallt, Arenig Fawr, Mynydd Nodol, Llyn Celyn, Arenig Fach (gorllewin), Foel Goch (gogledd-ddwyrain), mynyddoedd y Berwyn (o'r dwyrain i'r de), ac ychwaneg.



Gallwch fwynhau y golygfeydd, y llonydd a'r heddwch a hwyrach ehedydd yn tiwnio uwch eich pen

I'r gorllewin o'r copa mae:

- Eglwys y Santes Anne: safle eglwys/meudwyfa canoloesol.
- Cwningar (Warren) Eglwys Anne: lle y cynhyrchiwyd cwningod i'w gyrru i Lundain i fwydo'r Byddigion.

G **Pwll-clai:** ar gyfer gwneud brics i Stad Rhiwlas.

H **Y Gloig:** barcty (tanerdy) Stad Rhiwlas.

I **Llanfor:** Pentref hynafol yn dyddio yn ôl i'r canol oesoedd – 'roedd marchnadoedd lleol a ffeiriau yn cael eu cynnal yno tan yn ddiweddar yn y 14 canrif pryd y symudwyd gweithgareddau o'r fath i dref y Bala.

J **Eglwys Llanfor:** Codwyd yr adeilad presennol yn 1875, mae eglwys St Mor a St Deiniol, bellach wedi cau. Yn y fynwent mae beddadail teulu Rhiwlas godwyd gan Richard John Lloyd Price, sbortsmon enwog yn ei ddydd, awdur a sylfaenydd distyllfa wisgi Frongoch. Mae arysgrif ar y beddadail am ei geffyl Bendigo – ceffyl rasio a enillodd ras Jiwbilî Kempton Park, y llwyddiant yma oedd yn gyfrifol am barhad Stad Rhiwlas.

**Caer Rufeinig Llanfor:** Yn amser y Rhufeiniaid 'roedd clamp o wersyll yn bodoli, wedi ei wneud allan o bren, 'roedd digon o le i 1,760 o filwyr yno. Sefydlwyd y gaer yn yr ardal rhwng afonydd Dyfrdwy a'r Tryweryn ac i'r ochr ddeheuol o'r A494. Cafwyd hyd iddi drwy arolwg o'r awyr yn gymharol ddiweddar.

K **Lôn y Cariadon:** yn yr hen ddyddiau defnyddiwyd y lôn goediog hon gan y priodfab a'i briodferch ar eu ffordd o Blasdy Rhiwlas i briodi yn eglwys Llanfor.

